



Dyddiad cyhoeddi: Mis Ionawr 2017

Trefniadau ar gyfer cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg: Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru

Safonau'r Gymraeg

- 1 Mae'n ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol hefyd gydymffurfio â rhai o Safonau penodedig y Gymraeg (y Safonau) fel yr eglurwyd mewn Hysbysiadau Cydymffurfio a roddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.
- 2 Mae'r Safonau yn esbonio sut y disgwylir i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd gwahanol er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 3 Mae'r safonau perthnasol yn disgyn i mewn i dri chategori:
 - safonau darparu gwasanaeth – fel sy'n berthnasol, er enghraifft, i gynhyrchu dogfennau i'r cyhoedd eu defnyddio, megis adroddiadau archwilio;
 - safonau gweithredu – er enghraifft, mewn perthynas â thrin ceisiadau am swyddi; a
 - safonau llunio polisïau – er enghraifft, ar gyfer ystyried effeithiau polisi newydd arfaethedig, megis polisi cyfryngau cymdeithasol Swyddfa Archwilio Cymru, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.
- 4 Mae'n ofynnol inni gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg o 25 Ionawr 2017 ymlaen, er bod Comisiynydd y Gymraeg wedi nodi dyddiadau cydymffurfio diweddarach ar gyfer nifer o Safonau o fewn pob Hysbysiad Cydymffurfio. Mae Hysbysiadau Cydymffurfio Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol wedi eu cyhoeddi ar ein gwefan.
- 5 Fel sefydliad dwyieithog, rydym wedi hen ymrwymo i sicrhau bod y cyhoedd a'r cyrff a archwilir gennym yn gallu defnyddio ein gwasanaethau yn y naill iaith neu'r llall. Cyn cyflwyno'r Safonau, roedd y dull hwn yn seiliedig ar ein Cynllun Iaith Gymraeg – cynllun, a gyhoeddwyd yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, sy'n nodi ein hamcanion a'n dull o sicrhau ein bod yn parhau i wneud gwelliannau fel sefydliad dwyieithog. Mae cydymffurfio â'r Safonau, a gyflwynwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yn golygu ein bod yn ymrwymedig i barhau i adeiladu ar ein darpariaeth ddwyieithog.

Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru

- 6 Fel dau endid ar wahân, mae gan yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru Hysbysiad Cydymffurfio bob un ar wahân. Fel endid cyfreithiol, fodd bynnag, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn un swydd gorfforedig yn cael ei dal gan un person.
- 7 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn Fwrdd statudol a'i brif swyddogaethau yw cynghori a monitro'r Archwilydd Cyffredinol, cyflogi staff, sicrhau gwasanaethau, dal eiddo, cadw dogfennau a gwybodaeth a gasglwyd neu a gynhyrchwyd wrth gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, a chadw cofnodion mewn perthynas â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol.
- 8 Mae'r gwahaniaeth cyfreithiol hwn rhwng y ddau gorff yn cael effaith ar y modd y gosodir ac y gweithredir y Safonau - er enghraifft, o gofio nad yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflogi unrhyw staff, nid yw'r safonau gweithredol yn berthnasol iddo ef.
- 9 Yn ymarferol, trefniadau'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer cydymffurfio â'r Safonau sy'n berthnasol iddo ef yw mabwysiadu'n ffurfiol weithdrefnau Swyddfa Archwilio Cymru lle bo hynny'n berthnasol. Er enghraifft:
 - ymdrinnir ag unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno cysylltu â'r Archwilydd Cyffredinol dros y ffôn drwy gyfrwng gwasanaeth derbynfa Swyddfa Archwilio Cymru;
 - ymdrinnir ag unrhyw gŵyn yn erbyn y modd y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gweithredu'r Safonau drwy ddefnyddio'r un gweithdrefnau â Swyddfa Archwilio Cymru; a
 - chaiff ein hadroddiadau blynyddol ar weithredu'r Safonau eu cyhoeddi fel adroddiadau ar y cyd.
- 10 Gellir gweld rhagor o wybodaeth yn esbonio'r berthynas rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ar ein gwefan:
 - [Canllaw i ddeddfwriaeth archwilio cyhoeddus Cymru](#)
 - [Cod ymarfer sy'n llywodraethu'r berthynas rhwng Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru](#)
- 11 Cynhyrchwyd y ddogfen hon i amlinellu ein trefniadau cydymffurfio a chaiff ei diweddarau fel y bo angen. Fe'i cyhoeddir yn unol â'r Safonau canlynol:
 - 151 ac 153 (atodol i safonau cyflenwi gwasanaethau, sy'n gymwys i Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol);
 - 157 ac 159 (atodol i safonau llunio polisïau, sy'n gymwys i Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol); a
 - 163 ac 165 (atodol i'r safonau gweithredu, sy'n gymwys i Swyddfa Archwilio Cymru).

Trefniadau cyffredinol ar gyfer cydymffurfio

- 12 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflogi Swyddog Iaith Gymraeg parhaol, llawn amser, sydd â chylch gwaith penodol i sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol yn cydymffurfio â'r Safonau. At hynny, mae aelod o'n Tîm Arweinyddiaeth Uwch wedi'i neilltuo fel ein huwch arweinydd ar weithredu'r Safonau. Creffir ymhellach ar faterion cydymffurfio corfforaethol a materion cynllunio'r gweithlu gan ein Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol.
- 13 Bob chwarter, bydd Pwyllgor Rheoli a Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn diweddariad ynghylch ein trefniadau cydymffurfio. Rhybuddir hwy am unrhyw ddirywiad yn ein perfformiad drwy ddangosydd sy'n canolbwyntio ar nifer y cwynion yr ydym yn eu derbyn o ran ein cydymffurfiad. Rydym hefyd yn cyhoeddi'r wybodaeth hwn ddwywaith y flwyddyn fel rhan o'n Hadroddiad Interim a'n Hadroddiad Blynyddol a'n Cyfrifon
- 14 Er mwyn sicrhau bod ein hallbynnau yn gwbl ddwyieithog, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio fframwaith Cymru gyfan o gyflenwyr cyfieithiadau. Mae llif gwaith cyfieithu'r sefydliad yn cael ei gydgyssylltu gan aelodau o'r tîm Cyfathrebu, sydd hefyd yn ymgymryd yn fewnol â chyfieithiadau byr y mae angen eu gwneud yn gyflym, megis negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae hyn yn gwneud ein sefydliad yn gryfach ac yn fwy galluog eto i gyfathrebu'n ddwyieithog yn unol â'r Safonau.

Trefniadau penodol

Math o Safon	Gweithgaredd	Trefniadau	Goruchwyllo
Darparu gwasanaethau	Gohebiaeth	<p>Bob tair blynedd, byddwn yn cynnal arolwg dewis iaith ar yr holl gyrff yr ydym yn eu harchwilio, yn gofyn ym mha iaith y byddai'n well ganddynt i ohebiaeth ffurfiol ac anffurfiol gael ei hanfon atynt. Mae'r wybodaeth hon ar gael i'r holl staff ar ein mewnrwyd. Cynghorir staff i anfon gohebiaeth yn ddwyieithog pan fydd dewis iaith unigolyn yn anhysbys.</p> <p>Mae templedi penawdau Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol wedi'u diwygio i gynnwys datganiadau megis 'ni fydd cyfathrebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi' Mae'r wybodaeth hon hefyd wedi ei chynnwys o fewn</p>	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol

Math o Safon	Gweithgaredd	Trefniadau	Goruchwyllo
		<p>testun sy'n cael ei atodi'n awtomatig i'r holl negeseuon e-bost a anfonir allan.</p> <p>Yn ogystal, rhoddwyd logo i'r staff a geiriad ar gyfer eu llofnodion mewn negeseuon e-bost sy'n cyfleu eu bod yn hapus i bobl gysylltu â hwy yn Gymraeg neu yn Saesneg.</p>	
	Galwadau ffôn	Mae hyfforddiant cyfarfod a chyfarfod yn Gymraeg yn cael ei gynnis i'r holl staff. Mae pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y dderbynfa wedi dilyn yr hyfforddiant hwn.	Pennaeth Gwasanaethau Busnes a Phennaeth Adnoddau Dynol
	Cyfarfodydd	<p>Mae ein harolwg dewis iaith bob tair blynedd ar yr holl gyrff sy'n cael eu harchwilio yn gofyn ym mha iaith y byddai'n well ganddynt gynnal cyfarfodydd gyda ni. Mae'r wybodaeth hon ar gael i'r holl staff ar ein mewnwydd.</p> <p>Felly, ar gyfer y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd a gynhelir, mae dewisiadau iaith yr holl bartïon yn hysbys. Mae pob neges e-bost a anfonir allan hefyd yn cynnwys datganiad atodol yn gwahodd pobl fydd yn bresennol yn y cyfarfod i'n hysbysu am eu dewisiadau iaith, ar gyfer y cyfarfod ei hun a hefyd ar gyfer gwasanaeth y dderbynfa, os bydd y cyfarfod yn ein swyddfeydd ni.</p> <p>Mae gwaith yn mynd ymlaen i sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r angen i gyflawni unrhyw geisiadau o'r fath gan rai sy'n mynychu cyfarfod.</p>	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol
	Digwyddiadau	Yn gyffredinol, nid yw digwyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol yn agored i'r cyhoedd – swyddogion cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru sy'n mynychu ein cynadleddau a'n seminarau ni gan amlaf. Er gwaethaf hyn, fodd bynnag, mae	Pennaeth Cyfathrebu

Math o Safon	Gweithgaredd	Trefniadau	Goruchwyllo
		<p>ein digwyddiadau i gyd yn ddwyieithog. Cyhoeddir deunyddiau yn ddwyieithog bob amser – cyn, yn ystod ac ar ôl digwyddiad – a chynigir dewis iaith i bawb sy'n bresennol. Yn ddiweddar, cafodd rhestrau gwirio ein digwyddiadau eu diweddarau i annog trefnwyr i estyn y cynnig o ddewis iaith hefyd i unrhyw un sy'n cyfrannu i ddigwyddiad fel siaradwr.</p>	
	Dogfennau a gyhoeddir	<p>Mae holl ddogfennau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru sydd wedi eu cyhoeddi yn ddwyieithog. Mae'r rhan fwyaf o adroddiadau yn cynnwys cyfeiriadau at ein manylion cyswllt. Mae'r Cydgysylltydd Cyhoeddiadau felly wedi diweddarau'r templedi angenrheidiol fel bod dogfennau a gyhoeddir, neu sydd wedi eu cyhoeddi eisoes ond sy'n berthnasol i gyfnod ar ôl y dyddiad gosod perthnasol, yn cynnwys y datganiadau angenrheidiol i hysbysu darllenwyr bod y ddogfen hefyd ar gael yn y Gymraeg, y gallant gysylltu â ni yn Gymraeg neu yn Saesneg ac y gallant ddisgwyl yr un lefel o wasanaeth yn y naill iaith neu'r llall.</p> <p>At hynny, mae ein timau arolygon wedi cael gwybod am yr angen i hysbysu derbynwyr bod croeso iddynt gwblhau unrhyw rai o'n harolygon ni yn Gymraeg neu yn Saesneg.</p>	Pennaeth Cyfathrebu
	Gwefan a chyfryngau cymdeithasol	<p>Mae gwefan Swyddfa Archwilio Cymru a'i chyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar-lein yn gwbl ddwyieithog. Mae ein Swyddog Cyfathrebu Digidol, sy'n rheoli ein gwefan a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol, yn gwbl ymwybodol o'r gofynion o dan y Safonau.</p>	Pennaeth Cyfathrebu

Math o Safon	Gweithgaredd	Trefniadau	Goruchwyllo
Llunio polisïau	Ystyried effeithiau penderfyniadau polisïau ar y Gymraeg	Mae ein trefniadau i gydymffurfio â'r safonau llunio polisïau yn cynnwys alinio asesiadau effaith ar y Gymraeg â dyletswyddau tebyg i'r rhai sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Diweddarwyd y rhestrau gwirio perthnasol i sicrhau bod yr asesiadau hyn yn cael eu cynnal pan fo angen. Ymhellach, bydd y safonau llunio polisïau yn sail i adran Gymraeg o fewn Polisi Swyddfa Archwilio Cymru ar lunio polisïau – canllaw ar gyfer staff sydd wrthi'n cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd.	Pennaeth Cyfraith a Moeseg
Gweithredol	Defnydd mewnol o'r Gymraeg	Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru bolisi ar y defnydd o'r Gymraeg yn fewnol. Mae'n cynnwys cyfeiriadau at yr hawliau sydd gan staff o dan safonau gweithredol eraill, megis yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o unrhyw weithdrefn gwyno neu ddisgyblu. Mae'r polisi drafft hwn ar gael ar hyn o bryd i staff ar gais, ond bydd cynrychiolwyr undebau llafur a'n Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol yn craffu arno cyn iddo gael ei gyhoeddi ar ein mewnwyd.	Pennaeth Adnoddau Dynol
	Gweithdrefnau cwyno a disgyblu	Mae Polisi Cwynion a Pholisi Disgyblu Swyddfa Archwilio Cymru wedi'u diwygio a'u hailgyhoeddi ar ein mewnwyd i adlewyrchu'r gofynion newydd o dan y safonau gweithredol.	Pennaeth Adnoddau Dynol
	Meddalwedd TG Cymraeg	Mae'r staff yn gwybod, drwy'r fewnwyd a rhaglenni cynefino staff newydd, am gymhorthion TG Cymraeg sydd ar gael, gan gynnwys meddalwedd To Bach, pecyn Cysgliad, a Microsoft Office yn Gymraeg.	Pennaeth TGCh
	Datblygu sgiliau iaith staff	Mae'r staff yn gwybod, drwy'r fewnwyd a rhaglenni cynefino staff newydd, am yr hyfforddiant iaith Gymraeg sy'n cael ei gynnig. Mae	Pennaeth Adnoddau Dynol

Math o Safon	Gweithgaredd	Trefniadau	Goruchwyllo
		<p>Pwyllgor Rheoli Swyddfa Archwilio Cymru wedi cymeradwyo gweithdrefn sy'n peri bod hyfforddiant iaith sylfaenol, hyfforddiant ymwybyddiaeth, a chyfleoedd hyfforddi pellach yn cael eu cynnig i bob aelod o staff. Hysbysebir cyrsiau hyfforddiant yn rheolaidd ar ein mewnwyd ac yng nghylchlythyrau'r staff.</p>	
	<p>Arwyddion yn cael eu harddangos yn fewnol</p>	<p>Mae dylunwyr mewnol a thîm Gwasanaethau Busnes Swyddfa Archwilio Cymru yn gwbl ymwybodol o'r angen i arwyddion sy'n cael eu harddangos yn fewnol fod yn ddwyieithog, gyda'r testun Cymraeg wedi'i leoli er mwyn iddo gael ei ddarllen yn gyntaf. Mae hyn yn cynnwys 'arwyddion' tymor byr megis posteri yn hysbysebu digwyddiadau. Mae ein Cyhoeddwyr Dwyieithog hefyd yn ymwybodol o'r angen i gyfieithu testunau o'r fath ar gyfer ein dylunwyr.</p>	<p>Pennaeth Gwasanaethau Busnes</p>